# COFNODION CYFARFOD CYNGOR SIR POWYS A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD, POWYS AR DDYDD IAU, 8 MEDI 2016

PRESENNOL
Cynghorydd Sir K F Tampin (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir MC Alexander, G R Banks, G J Bowker, J H Brunt, L V Corfield, K W Curry, M J B Davies, D E Davies, L R E Davies, E R Davies, S Davies, A W Davies, M J Dorrance, V E Evans, W J Evans, D O Evans, L Fitzpatrick, J Gibson-Watt, P Harris, M R Harris, S M Hayes, G Hopkins, E A Jones, D C Jones, M J Jones, E M Jones, Eldrydd M Jones, G M Jones, D R Jones, W T Jones, F H Jump, P E Lewis, H Lewis, MC Mackenzie, S McNicholas, P J Medlicott, DW Meredith, R H Mills, ET Morgan, JG Morris, W J T Powell, WD Powell, GD Price, D R Price, P C Pritchard, G W Ratcliffe, K S Silk, W B Thomas, A G Thomas, T J Van-Rees, G P Vaughan, D H Williams, J M Williams, G I S Williams ac E A York

| 1. | YMDDIHEURIADAU | CC78- 2016 |
|---|---|---|

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir PJ Ashton, D Bailey, R G Brown, S C Davies, R I George, A Holloway, J R Jones, D Mayor, G Morgan, K M Roberts-Jones, J G Shearer, D A Thomas, D G Thomas, R G Thomas, T Turner a S L Williams

| 2. | DATGANIADAU DIDDORDEB | CC79- 2016 |
|---|---|---|

Datganodd y Cynghorydd Sir MJB Davies ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Gwernyfed.
Datganodd y Cynghorydd Sir GW Ratcliffe ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Gwernyfed.
Datganodd y Cynghorydd Sir WJT Powell ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Llandrindod ac Ysgol G G Y Groes.
Datganodd y Cynghorydd Sir MJ Dorrance ddiddordeb personol heb fod yn ariannol gan fod ei bartner yn llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu.
Datganodd y Cynghorydd Sir JH Brunt ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol G G Llanbister a llywodraethwyr yng Ngholeg Castell-nedd Port Talbot.
Datganodd y Cynghorydd GSI Williams ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Llandrindod.
Datganodd y Cynghorydd Sir WD Powell ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Gwernyfed.
Datganodd y Cynghorydd Sir GG Hopkins ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Gwernyfed.

Datganodd y Cynghorydd Sir ET Morgan ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu.
Datganodd y Cynghorydd Sir EA York ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt.
Datganodd y Cynghorydd Sir TJ Van-Rees ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt.
Datganodd y Cynghorydd Sir M Mackenzie ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Llandrindod.
Datganodd y Cynghorydd Sir DW Meredith ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu.
Datganodd y Cynghorydd Sir KM Tampin ddiddordeb personol heb fod yn ariannol fel llywodraethwr a benodwyd gan yr AALl yn Ysgol Uwchradd Llandrindod.
Datganodd y Prif Weithredwr ddiddordeb personol fel rhiant i ddisgybl yn mynychu Ysgol Uwchradd Llandrindod a gadael y cyfarfod tra bo’r mater hwn yn cael ei drafod.

| | | |
|---|---|---|
| **3.** | **CYNIGION YMGYNGHORI AC ARGYMHELLION DRAFFT YR AELOD PORTFFOLIO AR GYNIGION YSGOLION CYNRADD AC UWCHRADD I’R CABINET AR 27 MEDI 2016** | **CC80- 2016** |

Cafodd yr aelodau eu hatgoffa am ddiben y cyfarfod fel y cytunwyd gan y Cyngor ar 13 Gorffennaf:

*Y dylai’r Cyngor Llawn gwrdd i drafod argymhellion sy’n ymwneud â chynigion am Ysgolion Cynradd ac Uwchradd a effeithir gan Bolisi Trawsnewid y Cyngor a Pholisi Ad-drefnu Ysgolion 2015, er mwyn cyflwyno safbwyntiau’r Cyngor i’r Cabinet cyn y gwneir unrhyw benderfyniadau gan y Cabinet.*

Byddai aelodau’r Cabinet yn gwrando ar y pwyntiau a godwyd gan aelodau ond ni fyddent yn cymryd rhan yn y drafodaeth heblaw i ymateb i gwestiynau a gyflwynir iddynt. Petai unrhyw bleidleisio ar gynnig, ni fyddent yn cymryd rhan gan na fyddent yn dymuno cael eu gweld i fod wedi gwneud penderfyniad o flaen llaw ar unrhyw un o’r argymhellion cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet ar 27 Medi.

**Ysgolion Uwchradd Llanfair-ym-Muallt a Llandrindod**
Yn dilyn ymgynghoriad, cynghorodd yr Aelod Portffolio Addysg nad oedd yn cynnig newid yr argymhelliad i’r Cabinet i gau Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt ac Ysgol Uwchradd Llanidloes a sefydlu ysgol uwchradd 11-18 dwy ffrwd newydd a fydd yn gweithredu dros safleoedd presennol y ddwy ysgol o’r 1 Medi 2017.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Dorrance a oedd yr argymhelliad yn cynnwys symud addysg cyfrwng Cymraeg o Ysgol Uwchradd Aberhonddu i Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt gan ei fod yn teimlo y byddai hyn yn penderfynu lle y dylid darparu addysg cyfrwng Cymraeg o flaen llaw. Esboniodd yr Aelod Portffolio Addysg y byddai ymgynghoriad pellach ar ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg yn Aberhonddu. Gofynnodd y Cynghorydd Dorrance am y capasiti a dywedodd yr Aelod Portffolio fod yna 134 o leoedd dros ben ar hyn o bryd. Nododd y Cynghorydd Dorrance y gallai'r capasiti newid o ganlyniad i'r cynigion.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Gary Price a oedd yr Aelod Portffolio yn teimlo fod yr arweinyddiaeth bresennol yn yr ysgolion yn wan. Dywedodd yr Aelod Portffolio nad oedd yn credu hyn ond y byddai cyfuno'r timoedd arweinyddiaeth yn helpu i wella deilliannau i ddysgwyr. Gofynnodd y Cynghorydd Price a oedd yr Aelod Portffolio wedi gweld neges e-bost a anfonwyd gan Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Llandrindod. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio iddo weld yr e-bost ac y byddai'n cael ei ystyried fel rhan o'r ymgynghoriad. Nododd y Cynghorydd Price y sylwadau gan Estyn yn y dadansoddiad o'r ymgynghoriad sef fod y cynigion yn methu â dangos sut y byddent yn gwella safonau. Atebodd yr Aelod Portffolio gan ddweud fod profiad y gorffennol wedi dangos fod deilliannau wedi gwella. Nododd y Cynghorydd Price fod cyfalaf o £17m wedi cael ei ddyrannu i'r cynllun a dadleuodd y byddai'n fwy buddiol i ddefnyddio'r arian i fynd i'r afael â gwaith gwerth £3.5m oedd yn cronni yn y ddwy ysgol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Price at nifer o wallau yn y dadansoddiad o'r ymgynghoriad.

Cwestiynodd y Cynghorydd Gwilym Williams a fyddai addysg cyfrwng Cymraeg yn gynaliadwy yn Llanfair-ym-Muallt heb blant yn mynychu o Aberhonddu. Nododd y canlyniadau TGAU gwell. Cyfeiriodd at asesiad Estyn na fyddai'r cynlluniau yn debygol o wella safonau. Galwodd ar y Cabinet i roi'r gorau i'r cynigion tan fod penderfyniad wedi'i wneud ar y mater o ddarpariaeth iaith Gymraeg yn Aberhonddu. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Addysg unwaith eto y byddai ymgynghoriad ar wahân ar ddarpariaeth iaith Gymraeg. Dywedodd fod canlyniadau cynhwysol lefel 2 wedi parhau heb newid rhwng 2015 a 2016 a bod canlyniadau Safon Uwch A i C wedi gostwng o 78% yn 2015 i 70% yn 2016.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir John Morris beth fyddai'r costau i'r Cyngor petai'r ddwy ysgol yn cau a chafodd wybod bod gan Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt ddiffyg o £103,000 a bod gan Ysgol Uwchradd Llandrindod weddill o £65,900.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Maureen Mackenzie fod y cynigion yn siom i'r cyhoedd a bod angen eglurdeb ar sut y byddai safonau yn gwella o ganlyniad i'r cynigion. Awgrymodd y gallai rhannu adnoddau ar draws y ddwy ysgol wella safonau a dadleuodd y gellid cefnogi'r ddwy ysgol i wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander na ddylid cael rhagdybiaeth y byddai ad-drefnu yn codi safonau. Dadleuodd mai'r ffordd orau ymlaen oedd sefydlogrwydd cynyddol.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Huw Williams am eglurhad ar ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a dywedodd yr Aelod Portffolio fod y cynnig ar gyfer ysgol dwy ffrwd.

Dywedodd y Cynghorydd Sir David Meredith na allai gefnogi'r cynnig oni bai y byddai unrhyw gyfeiriad at addysg cyfrwng Cymraeg yn Llanfair-ym-Muallt yn cael ei ddileu.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Aled Davies y byddai'n rhaid i'r cynnig fod yn ariannol hyfyw a dim ond petai disgyblion Aberhonddu yn dod i Lanfair-ym-Muallt am ddarpariaeth iaith Gymraeg y gallai fod yn gynaliadwy.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe a oedd nawdd ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Aberhonddu a Llanfair-ym-Muallt. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod dwy ffrwd ar hyn o bryd yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu ac Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt ac y byddai angen dod o hyd i'r nawdd os mai'r cynnig fyddai i'r ddwy ffrwd barhau ar y ddau safle o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

Dadleuodd y Cynghorydd Sir Gwilym Vaughan y dylai disgyblion gael y dewis i gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac y dylent gael mynediad at yr ystod lawn o wasanaethau. Nododd yr Aelod Portffolio mai tri phwnc a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu a bod Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt yn cynnig deg pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dadleuodd y Cynghorydd Sir Meredith mai'r rheswm dros hyn oedd nad oedd y Cyngor erioed wedi ariannu statws categori 2b Ysgol Uwchradd Aberhonddu ac o ganlyniad i hynny, roedd disgyblion yn cael eu cludo allan o'r sir i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg.

Nododd y Cynghorydd Sir Mackenzie fod yr amserlenni ar gyfer Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt ac Ysgol Uwchradd Llandrindod yr un fath â'r amserlenni ar gyfer Ysgol Uwchradd Aberhonddu ac Ysgol Uwchradd Gwernyfed a bod hyn wedi'i ddynodi fel risg gan Estyn. Roedd culni'r cynnig yn parhau'n siom iddi ac nid oedd yn edrych ar y potensial o rannu adnoddau a sgiliau. Cynigiodd y Cynghorydd Mackenzie y dylai'r Cabinet roi'r gorau i'r cynigion ar gyfer Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt ac Ysgol Uwchradd Llandrindod am gyfnod atgyfnerthu o hyd at 2 flynedd er mwyn caniatáu i dimoedd arweinyddiaeth y ddwy ysgol i gydweithio ar gynigion ar y cyd i godi safonau. Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cynghorydd Sir Alexander.

Cadarnhawyd na fyddai hyn yn effeithio ar nawdd Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain ac na fyddai'n cael unrhyw oblygiadau ar gyfer ymgynghoriad Ysgol Uwchradd Aberhonddu ac Ysgol Uwchradd Gwernyfed.

Rhoddwyd y cynnig i bleidlais. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan Gyfreithiwr y Cyngor mai argymhelliad i'r Cabinet fyddai'r bleidlais ac na fyddai'n orfodol arnynt. Atgoffodd yr Aelodau hefyd na fyddai'r Cabinet yn pleidleisio gan nad oeddynt yn dymuno i gael eu gweld yn gwneud penderfyniad ar y mater o flaen llaw.

Cafodd y cynnig ei basio gan 32 pleidlais i 9 gyda 3 Chynghorydd yn ymatal rhag pleidleisio.

**ARGYMHELLWYD i'r Cabinet y dylid rhoi'r gorau i'r cynigion ar gyfer Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt ac Ysgol Uwchradd Llandrindod am gyfnod o hyd at 2 flynedd i ganiatáu i dimoedd arweinyddiaeth y ddwy ysgol i gydweithio ar gynigion ar y cyd i godi safonau.**

Gofynnodd y Cynghorydd Sir David Price a fyddai Llywodraeth Cymru yn barod i dderbyn y cynnig hwn ar raddfa lai. Dywedodd y Pennaeth Ysgolion mai blaenoriaeth nawdd ysgolion yr unfed ganrif ar hugain oedd moderneiddio adeiladau ysgol statws categori c a d i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer addysgu.

Gohiriwyd y Cyngor o 11.40 hyd at 11.50 a.m.
Gadawodd y Cynghorydd Sir Mills y cyfarfod.

**Ysgol Uwchradd Aberhonddu ac Ysgol Uwchradd Gwernyfed**

Yn dilyn yr ymgynghoriad, dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg ei fod yn cynnig newid yr argymhelliad i'r Cabinet i argymell y canlynol:

1. Rhoi'r gorau i elfennau a, b, a d y Cynnig a dod ag adroddiad newydd i'r Cabinet gydag argymhellion drafft ar gyfer Ysgolion Uwchradd Aberhonddu a Gwernyfed, yn unol â'r Polisi Ad-drefnu Ysgolion 2015, heb fod yn hwyrach na mis Chwefror 2017;
2. Ail-ymgynghori ar unwaith ar elfen c) y Cynnig h.y. cau'r ffrwd Gymraeg yn Aberhonddu o fis Medi 2017.
3. Cyflwyno achos busnes amlinellol diwygiedig ar unwaith i Raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain am fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer y ddau gampws. Bydd hyn yn cynnwys adeilad newydd i'r campws 11-18 yn Aberhonddu a gwelliannau i gampws Gwernyfed.

Croesawodd y Cynghorydd Sir Melanie Davies yr argymhellion diwygiedig ac ychwanegodd y byddai'n hoffi gweld cadw'r ffrwd Gymraeg yn Aberhonddu.

Estynnodd y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance longyfarchiadau i staff, llywodraethwyr a disgyblion yr ysgolion ar y canlyniadau arholiadau a gyflawnwyd er gwaetha'r ansicrwydd yn wynebu'r ysgolion. Gofynnodd am y cynigion ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a chafodd wybod na allai'r ymgynghoriad ar addysg cyfrwng Cymraeg yn Aberhonddu ddechrau tan fod y Cabinet wedi dod i benderfyniad ar Ysgol Uwchradd Llanfair-ym-Muallt ac Ysgol Uwchradd Llandrindod gan y byddai rhaid i'r ymgynghoriad gynnwys ysgol a enwir lle gallai'r ddarpariaeth drosglwyddo iddi. Cadarnhawyd hefyd y gellid newid y capasati rhwng cyflwyno'r achos busnes amlinellol a'r achos busnes terfynol ac na fyddai'r ymgynghoriad yn effeithio ar yr achos busnes.

Mynegodd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt ddiolch i'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Addysg am eu parodrwydd i wrando ar farn aelodau. Teimlodd y byddai ymgynghoriad cynharach gydag ysgolion, llywodraethwyr a chymunedau wedi dynodi'r gwallau yn y cynigion megis y symudiad at system drydyddol ar gyfer addysg chweched dosbarth. Roedd yn teimlo fod rheidrwydd ar y Cyngor i gadw addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio y byddai ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid yn gynnar yn y broses.

Fe wnaeth y Cynghorydd Sir Alexander longyfarch yr ysgolion ar eu canlyniadau arholiadau a nodi eu bod yn cynhyrchu canlyniadau o ansawdd uchel yn y pynciau hwyluso.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Liam Fitzpatrick fod y cynigion wedi creu pryder diangen ac wedi arwain at rai disgyblion yn symud ysgolion. Gofynnodd am gadarnhad a'i dderbyn nad oes penderfyniad o flaen llaw yn cael ei wneud am ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Aled Davies a fyddai Llywodraeth Cymru yn derbyn y cynnig fel un digon trawsnewidiol a dywedodd fod graddau uchel o hyder y byddai'r cynigion yn cyflwyno adeilad newydd yn Aberhonddu a gwaith adnewyddu yng Ngwernyfed.

Mynegodd y Cynghorydd Sir Ratcliffe ddiolch i'r Aelod Portffolio Addysg a'r Arweinydd am newid yr argymhellion. Gofynnodd i'r amserlen ymgynghori a manylion y cyrsiau sydd ar gynnig fod ar gael. Dywedodd y Pennaeth Ysgolion nad oedd pob cwrs Safon Uwch yn cael ei gynnig ym mhob ysgol ond bod gan bob disgybl fynediad atynt trwy gwricwlwm cydweithredol gogledd Powys a de Powys. Byddai'n trefnu i'r manylion gael eu cylchredu i aelodau.

Mynegodd y Cynghorydd Sir William Powell ddiolch hefyd i'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio ond dywedodd fod y broses wedi difrodi enw da'r Cyngor. Gofynnodd pa wersi y gellid eu dysgu o'r hyn oedd wedi digwydd. Gofynnodd a fyddai'n briodol neu'n gyfreithlon i gyflwyno cynigion ym mis Chwefror 2017 cyn i'r Cyngor encilio. Cadarnhaodd Cyfreithiwr y Cyngor y gallai'r Cyngor fynd ymlaen yn gyfreithlon ym mis Chwefror 2017.

Tra ei fod yn croesawu'r argymhellion, dywedodd y Cynghorydd Sir David Meredith y byddai'n parhau i ymladd dros gadw addysg cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu. Roedd cadw'r chweched dosbarth wedi derbyn croeso gwresog gan y gymuned. Nododd fod 74% o ddisgyblion wedi cyflawni safon lefel 2 mewn canlyniadau TGAU, sy'n gynnydd o 9% ar y flwyddyn flaenorol, ac estynnodd longyfarchiadau i'r Pennaeth, staff a'r disgyblion ar y canlyniadau rhagorol a gyflawnwyd. Roedd yn gobeithio y byddai hyn yn arwain at Estyn yn tynnu'r ysgol allan o fesurau arbennig.

Dadleuodd y Cynghorydd Sir John Morris fod gwall sylfaenol wedi bod yn yr agwedd dameidiog a gymerwyd tuag at ddarpariaeth ysgolion uwchradd yn y sir. Mae angen i'r Cabinet ddangos yn awr sut y byddai'r cynigion newydd yn codi safonau.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Gary Price a fyddai dyraniad cyfalaf ychwanegol a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau y byddai'r rhaglen gyfalaf yn cael ei haddasu. Tra ei fod yn hapus i fuddsoddi yn yr ysgolion, dywedodd y Cynghorydd Price na ddylai hyn fod ar draul ysgolion eraill ac y byddai angen dod o hyd i nawdd ychwanegol.

Nododd y Cynghorydd Sir David Jones y rhesymau pam yr oedd y cynigion gwreiddiol wedi cael eu gwneud a gofynnodd beth oedd wedi newid. Dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg ei fod wedi ystyried cryfder y teimladau yn deillio o'r cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad.

Fe wnaeth y Cynghorydd Sir Timothy Van-Rees annog y Cyngor i symud ymlaen gydag adeiladu ysgol newydd yn Aberhonddu.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Fitzpatrick a fyddai'r Aelod Portffolio Addysg yn cymryd y cyfle i drefnu darpariaeth ysgolion uwchradd yng ngogledd Powys. Dywedodd yr Aelod Portffolio nad oedd hyn yn bosibl ar hyn o bryd o ystyried faint o waith sy'n ofynnol a'r adnoddau sydd eu hangen.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir David Price a fyddai'r cynigion yn rhwystro'r llif o bobl ifanc sy'n gadael y sir i gael mynediad at addysg uwchradd a dywedodd yr Aelod Portffolio ei fod yn obeithiol y byddai darparu adeiladau modern yn help yn y cyswllt hwn.

Gohiriwyd y Cyngor am 12.45 gan ailymgynnull am 13.30.

PRESENNOL
Cynghorydd Sir K F Tampin (Chair)

Cynghorwyr Sir MC Alexander, G R Banks, G J Bowker, J H Brunt, L V Corfield, K W Curry, M J B Davies, D E Davies, L R E Davies, E R Davies, S Davies, A W Davies, M J Dorrance, V E Evans, W J Evans, D O Evans, L Fitzpatrick, J Gibson-Watt, P Harris, M R Harris, S M Hayes, G Hopkins, E A Jones, D C Jones, M J Jones, E M Jones, Eldrydd M Jones, G M Jones, D R Jones, W T Jones, F H Jump, P E Lewis, H Lewis, MC Mackenzie, S McNicholas, P J Medlicott, DW Meredith, R H Mills, ET Morgan, JG Morris, W J T Powell, WD Powell, GD Price, D R Price, P C Pritchard, G W Ratcliffe, K S Silk, W B Thomas, A G Thomas, T J Van-Rees, G P Vaughan, D H Williams, J M Williams, G I S Williams and E A York

**Ysgol G G Llanbister**

Yn dilyn yr ymgynghoriad, dywedodd yr Aelod Portffolio Addysg ei fod yn cynnig rhoi'r gorau i'w argymhelliad i'r Cabinet y dylai Ysgol G G Llanbister gau ac y byddai yn hytrach na hynny yn dod yn ôl i'r Cabinet gydag argymhellion drafft erbyn mis Tachwedd 2016. Wrth wneud hyn, roedd wedi ystyried y cynnydd arwyddocaol tybiedig yn niferoedd disgyblion a'r amser teithio sylweddol i rai disgyblion.

Siaradodd y Cynghorydd Sir John Brunt fel yr aelod lleol i groesawu'r argymhelliad newydd ac i dalu teyrnged i'r llywodraethwyr, staff a'r rhieni. Rhoddodd anogaeth i'r Cyngor gefnogi'r argymhelliad.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Gary Price pam nad oedd *Opinion Research Services* wedi llunio dadansoddiad o'r ymgynghoriad. Dywedwyd wrtho eu bod wedi cael eu cyflogi i lunio dadansoddiadau o'r ymgynghoriadau ar ysgolion uwchradd gan fod disgwyliad mai dyma lle y byddai'r nifer fwyaf o sylwadau'n cael eu derbyn. Gofynnodd pa ysgol fyddai'n cyfuno neu'n ffederaleiddio gyda Llanbister a chafodd wybod nad oes unrhyw benderfyniad wedi cael ei wneud eto.

Gofynnodd y Cynghorydd Aled Davies ynglŷn â'r amserlen gan ei bod yn bwysig fod yr ansicrwydd yn dod i ben. Cafodd wybod y byddai papur yn dod gerbron y

Cabinet ym mis Tachwedd 2016 ond na fyddai ymgynghoriad ar unrhyw gynigion yn dechrau tan fis Ionawr 2017 ar y cynharaf.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Gibson-Watt a fyddai'r cynigion newydd yn dod ôl i'r Cyngor llawn cyn y Cabinet a chadarnhaodd yr Aelod Portffolio mai dyma fyddai'r achos wedi'r ymgynghoriad a bod y sefyllfa bresennol ymysg yr opsiynau sy'n cael eu hystyried. Cynghorodd Cyfreithiwr y Cyngor nad yw bwriad oedd dod yn ôl i'r Cyngor ar bob cam ond cyn y byddai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud.

**Ysgol G G Llanfihangel Rhydieithon**

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cynghorodd yr Aelod Portffolio Addysg nad oedd yn cynnig newid ei argymhelliad i'r Cabinet y dylid cau'r ysgol gydag effaith o'r 31 Rhagfyr 2016 gydag Ysgol G G Y Groes yn cael ei henwi fel yr ysgol dderbyn.

Siaradodd y Cynghorydd Sir Hywel Lewis fel yr aelod lleol gan nodi'r sylwadau gan Estyn ar sut y cawsant argraff dda am y gwelliannau a wnaed yn yr ysgol. Cyfeiriodd at y parodrwydd a ddangoswyd gan yr ysgol i weithio gydag ysgolion eraill, gan rannu pennaeth gydag Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanelwedd a dadleuodd y dylid annog model o gydweithrediad. Cynghorodd hefyd fod yr esgobaeth wedi cysylltu gyda'r ysgol gyda'r bwriad o droi'r ysgol yn ysgol yr Eglwys yng Nghymru.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Gary Price a oedd yr Aelod Portffolio wedi gweld neges e-bost oddi wrth Gadeirydd y Llywodraethwyr a chadarnhaodd yr Aelod Portffolio iddo ei gweld ac y byddai'n cael ei hystyried ynghyd â'r holl sylwadau eraill a dderbyniwyd. Gofynnodd y Cynghorydd Price am ddosbarthiadau grŵp blwyddyn unigol a chafodd wybod nad oes gan Ysgol G G Y Groes un dosbarth grŵp blwyddyn unigol. Gofynnodd hefyd a oedd ystafelloedd dosbarth symudol yn cael eu defnyddio yn Y Groes a chafodd wybod nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ond nid ellid rhoi sicrwydd mai dyma fyddai'r achos yn y dyfodol. Cytunodd yr Aelod Portffolio ei bod hi'n dda rhannu adnoddau. Gofynnodd y Cynghorydd Price sut y byddai cau'r ysgol yn cyfrannu tuag at arwyddair y Cyngor sef cymunedau cryfion yng nghalon werdd Cymru. Nododd yr Aelod Portffolio fod cymunedau eraill wedi goroesi yn sgil cau eu hysgolion. Dadleuodd nad oedd cael tri neu bedwar grŵp blwyddyn yn yr un dosbarth yn amgylchedd da ar gyfer addysgu.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Gwilym Williams fod 16 o blant yn y grŵp chwarae ar hyn o bryd a gofynnodd a oedd y rhagamcanion o ran niferoedd disgyblion yn anghywir ac y dylid newid yr argymhelliad oherwydd hynny. Cynghorodd y swyddogion mai 33 oedd y rhagamcan o ran niferoedd disgyblion ym mis Ionawr 2017 a 34 ym mis Ionawr 2012. Dadleuodd y Cynghorydd Williams yn erbyn hyn trwy ddweud y byddai 37 o ddisgyblion erbyn mis Rhagfyr. Dywedodd y swyddogion fod eu ffigyrau yn seiliedig ar nifer y lleoedd y gwnaed cais amdanynt.

Galwodd y Cynghorydd Sir Gibson-Watt ar y Cabinet i ohirio'r penderfyniad i aros am y Polisi Ysgolion Gwledig sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru.

Heriodd y Cynghorydd Sir Alexander y syniad fod ysgolion bychain yn ysgolion gwael. Dadleuodd fod angen arweinyddiaeth a phartneriaethau da ac nad oedd

niferoedd mawr o ddisgyblion yn mynd i fod ar gael byth mewn ardaloedd gwledig.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Graham Jones am y cynlluniau i gynnig lleoedd i blant tair blwydd oed a chafodd wybod bod y gwasanaeth ysgolion yn hyderus y byddai digon o leoedd ar gael.

Gwrthwynebodd y Cynghorydd Sir David Evans y cynnig i gau Ysgol G G Llanfihangel Rhydieithon ac Ysgol G G Nantmel gan ddadlau nad oedd y polisi ysgolion cynradd wedi cael ei gyflwyno gerbron y Cyngor felly nid oedd ganddo gefnogaeth y Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir William Powell a oedd y Cyngor wedi bod mewn cysylltiad gyda Llywodraeth Cymru dros eu polisi ysgolion gwledig a chafodd wybod nad oedd unrhyw wybodaeth wedi bod ar y polisi er bod swyddogion wedi bod mewn trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd y Cynghorydd Sir Aled Davies faint o oriau fyddai'n cael eu darparu i blant 3 blwydd oed a chafodd wybod mai 10 awr sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd a bod y cyngor yn cynnig cynyddu hyn i 12½ awr. Roedd trafodaethau gan y llywodraeth am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyn oed ysgol o 30 awr yn benodol i deuluoedd lle'r oedd y ddau riant yn gweithio. Dywedodd y Cynghorydd Davies ei bod hi'n bwysig fod y ddarpariaeth hon yn agos at lle'r oedd y plant yn byw a bod ysgolion cynradd lleol yn helpu i ddarparu'r gwasanaeth. Cynghorodd y swyddogion fod darpariaeth gymysg, gyda rhai ysgolion yn cynnig y gwasanaeth a rhai darpariaethau yn annibynnol o ysgolion. Cadarnhaodd y swyddogion fod ymarferiad i fapio'r ddarpariaeth yn agos at gael ei gwblhau ac y byddai'n cael ei rannu gyda'r Aelod Portffolio.

Nododd y Cynghorydd Sir Huw Williams na chafwyd yr un lefel o drafodaeth yn y Cyngor pan gyflwynwyd cynigion i gau 11 ysgol gynradd yn ardal Ystradgynlais a chyflwyno 4 ysgol newydd yn eu lle. Ar yr adeg honno, roedd wedi gwrthwynebu cau'r ysgolion ond erbyn hyn roedd o'r farn fod yr ysgolion ardal newydd yn llwyddiannus iawn.

Dywedodd y Cynghorydd Sir Hywel Lewis fod 33 o ddisgyblion yn yr ysgol ar hyn o bryd gyda 4 o ddisgyblion eraill i ymuno ym mis Ionawr. Roedd y feithrinfa yn llawn ar hyn o bryd gyda rhestr aros o 4. Nododd fod nifer o dai newydd wedi'u cynllunio ar gyfer Y Groes gyda chyplau ifanc yn ymsefydlu yn yr ardal. Nododd mai £4,410 oedd y gost ar gyfartaledd fesul disgybl ac y byddai hyn yn gostwng i £3,694 gyda'r disgyblion ychwanegol oedd yn unol â chyfartaledd y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis y dylid ffederaleiddio Ysgol G G Llanfihangel Rhydieithon gydag Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanfihangel neu ysgol debyg. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Sir Garry Banks.

Rhoddwyd y cynnig i'r bleidlais. Fe wnaeth Cyfreithiwr y Cyngor atgoffa Aelodau y byddai'r bleidlais yn argymhelliad i'r Cabinet ac na fyddent yn cael eu hymrwymo i hyn. Fe wnaeth atgoffa'r Aelodau hefyd na fyddai'r Cabinet yn pleidleisio gan nad oeddynt yn dymuno i gael eu gweld yn gwneud penderfyniad ar y mater o flaen llaw.

Cafodd y cynnig ei basio gan 27 pleidlais i 1 gyda 5 Cynghorydd yn ymatal rhag pleidleisio.

**ARGYMHELLWYD i'r Cabinet y dylid caniatáu i Ysgol G G Llanfihangel Rhydieithon ffederaleiddio gydag Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Llanelwedd neu ysgol debyg.**

| 4. | EITEMAU SYDD WEDI'U HEITHRIO | CC81- 2016 |
|---|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i gyngor y Prif Weithredwr a Chyfreithiwr y Cyngor a

**PHENDERFYNWYD y dylid eithrio'r cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth a eithrir yn cael ei datgelu iddynt dan gategori 1 Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) 2007.**

Fe wnaeth y Cynghorydd Sir David Meredith adael y cyfarfod.

| 5. | DISWYDDIAD GORFODOL | CC82- 2016 |
|---|---|---|

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r pecyn diswyddiadau ar gyfer y Cyfarwyddwr Newid a Llywodraethu o ganlyniad i benderfyniad y Cabinet i ddileu'r swydd o strwythur trefniadol y Cyngor ac i ddiswyddo'r deilydd swydd.

Fe wnaeth y Cynghorydd Sir Aled Davies adael y cyfarfod.

Rhoddwyd manylion y pecyn i'r bleidlais a chafodd ei basio gan 32 pleidlais i 3 gydag 1 Cynghorydd yn ymatal rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r pecyn diswyddo.**

**Cynghorydd Sir K F Tampin (Cadeirydd)**